Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: Gwelliant sylweddol

**Ysgol Ein Harglwyddes**
**Ffordd Caernarfon**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2UT**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Barnwyd bod Ysgol Ein Harglwyddes wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Medi 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Mynd i'r afael â diffygion yn ansawdd arweinyddiaeth

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r pennaeth dros dro a'r dirprwy bennaeth dros dro yn gweithio'n dda iawn fel tîm ac maent wedi llwyddo i ddatblygu gweledigaeth gref. Mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau sylweddol i bennu rolau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth wedi eu diffinio'n glir yn yr ysgol. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghynllunio strategol gwell yr ysgol.

Mae uwch reolwyr yn herio staff yn effeithiol i arfarnu eu perfformiad eu hunain ac eraill yn rheolaidd, a mynd i'r afael â'r prif flaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae staff yn paratoi adroddiadau ysgrifenedig manwl ar gynnydd yn erbyn targedau sy'n cael eu gosod mewn cynlluniau gwella. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cynnwys ffocws da ar godi safonau ac mae cofnodion y cyfarfodydd yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am gamau gweithredu, sy'n cynnwys amserlenni realistig.

Mae cynlluniau gweithredu yn strategol ac yn cynnwys ffocws cryf ar godi safonau. Maent yn cynnwys adolygiad manwl o'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad, yn nodi tasgau, cyfrifoldebau, costau, gofynion hyfforddiant ac amserlenni, ac yn gwneud defnydd priodol o dargedau mesuradwy. Fodd bynnag, nid yw trefniadau ar gyfer arfarnu effaith y camau gweithredu gan uwch reolwyr yn ddigon trylwyr bob tro.

Mae gan y corff llywodraethol ymwybyddiaeth gadarn o'r meysydd y mae angen i'r ysgol eu datblygu ar hyn o bryd, ac mae'n ystyried cynnydd yn y rhain yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd tymhorol. Mae'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn cyfarfod â'r uwch reolwyr yn rheolaidd i drafod cynnydd materion strategol yn erbyn y cynllun gweithredu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae adroddiadau'r pennaeth yn arfarnol ac yn galluogi llywodraethwyr i gwestiynu a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol. Mae hyn yn eu galluogi i gyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol. Hefyd, mae ganddynt rôl weithredol o ran monitro a goruchwylio gwaith yr ysgol trwy bwyllgor safonau sy'n dadansoddi perfformiad disgyblion. Mae deilliannau'r cyfarfodydd hyn yn arwain at osod targedau effeithiol. Mae llywodraethwyr cyswllt ar gyfer blaenoriaethau penodol yng nghynllun datblygu'r ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd at y pwyllgor hwn ac yn arfarnu ac yn monitro cynnydd tuag at wella.

Er mwyn parhau i adeiladu ar allu'r ysgol i wella, dylai'r ysgol fynd ati i benodi pennaeth a dirprwy bennaeth parhaol.

**Argymhelliad 2: Sefydlu prosesau hunanarfarnu mwy grymus**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr yn llwyddo i weithredu ystod o fentrau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer hunanarfarnu.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu presennol yn effeithiol ac yn nodi'n glir rolau'r tîm arweinyddiaeth, athrawon a'r corff llywodraethol.  Hefyd, mae'r pennaeth dros dro wedi cynhyrchu amserlen hirdymor hylaw sy'n nodi pa feysydd sydd yn cael eu monitro ar raglen dreigl.

Erbyn hyn, mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn dda ac yn ei drafod yn drylwyr â staff a llywodraethwyr.  Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir ac yn gywir mewn arfarniadau ysgrifenedig.  Caiff meysydd pwysig i'w datblygu eu nodi fel blaenoriaethau i'w cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol.  Mae cysylltiad agos rhwng y broses hunanarfarnu a chynlluniau datblygu'r ysgol.

Erbyn hyn, mae proses systematig ar waith o bori trwy lyfrau ac olrhain cynnydd disgyblion.  Hefyd, mae arweiniwyd yn gweithredu'r gweithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu yn llwyddiannus.  Mae nodiadau arsylwi gwersi yn fanwl ac yn nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.  Caiff holiaduron i gasglu barn a safbwyntiau rhieni a disgyblion eu dadansoddi'n dda a chaiff y wybodaeth ei gweithredu arni.  Un enghraifft o effaith y gwaith hwn yw bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o ymddygiad erbyn hyn, ac mae wedi gwella ymddygiad yn gyffredinol ar draws yr ysgol.

Mae'r gweithdrefnau sydd ar waith erbyn hyn yn dangos bod yr uwch dîm rheoli a'r athrawon yn adnabod eu hysgol yn dda a'u bodi wedi nodi cryfderau a meysydd y mae angen eu datblygu yn gywir.  Mae'r gwaith hwn yn dechrau cael effaith ar godi safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

**Argymhelliad 3: Cwblhau diweddaru cynlluniau gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi llwyddo i gwblhau'r dasg o ddiweddaru ei chynlluniau ar gyfer dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.  Mae cynlluniau tymor hir, canolig a byr wedi eu gweithredu'r llawn drwy'r ysgol gyfan a chaiff taflenni cynllunio cytûn eu defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant.  Mae cynlluniau tymor byr i fodloni anghenion unigolion neu grwpiau o ddysgwyr yn ystyried dysgu blaenorol yn briodol, a chaiff cyfleoedd addas eu darparu i ddatblygu medrau allweddol disgyblion. O ganlyniad, erbyn hyn mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu symbylol wedi eu cynllunio'n dda, sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol wedi diweddaru ei pholisïau cwricwlaidd.  Mabwysiadwyd a llofnodwyd y rhain gan y corff llywodraethol.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod prosesau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu rhoi ar waith yn drylwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinyddiaeth wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth yr holl staff o'r angen i weithredu ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Mae pob athro yn cael cyfleoedd hyfforddiant addas i'w baratoi i gymhwyso'r strategaethau hyn yn effeithiol.

Mae'r cydlynydd asesu yn trefnu cyfarfodydd staff yn benodol i drafod asesu ar gyfer dysgu ac i gynnig cymorth ac arweiniad. Mae arweinwyr yn monitro defnydd strategaethau asesu ar gyfer dysgu trwy broses drylwyr o arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion. Mae'r adroddiadau arfarnol o'r prosesau hyn yn nodi'n gywir feysydd i'w datblygu ymhellach a chânt eu rhannu â'r staff er mwyn gwella darpariaeth.

Mae tystiolaeth glir yn llyfrau disgyblion ac mewn gwersi o ddefnydd strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Ym mhob gwers, mae athrawon yn rhannu meini prawf llwyddiant yn effeithiol ac yn eu hadolygu'n rheolaidd gyda disgyblion wrth iddynt ymgymryd â'u tasgau dysgu. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio technegau eraill yn llwyddiannus hefyd, fel cwestiynau penagored a rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Erbyn hyn, mae'r defnydd o bartneriaid dysgu ac asesu cymheiriaid wedi eu sefydlu ym mron pob dosbarth.

**Argymhelliad 5: Gwneud defnydd mwy cyson o Gymraeg achlysurol yn ystod gwersi**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Erbyn hyn, mae gan y Gymraeg broffil uwch o lawer yn yr ysgol. Mae staff a llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o Gymraeg achlysurol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn wedi arwain at lawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn ystod amser egwyl ac amser cinio, ac yn datblygu geirfa dda.

Erbyn hyn, mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol bob dydd yn gyson ac wedi ei gynllunio'n dda ym mhob dosbarth. Mae'r ysgol wedi datblygu geirfa raddedig effeithiol a chronfeydd sylwadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd ac ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau yn Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau gwrando da ac maent yn ymateb yn hyderus i gwestiynau. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gyflwyno gwybodaeth a siarad am brofiadau pob dydd. Gall y mwyafrif ohonynt ofyn cwestiynau syml ac ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau a gwneud sylwadau gwirfoddol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau defnyddio amrywiaeth o ymadroddion a phatrymau brawddegau. Fodd bynnag, ni chânt eu herio'n ddigonol bob tro i ymestyn ystod y patrymau y maent yn eu defnyddio.

Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo a datblygu defnydd disgyblion o Gymraeg, er enghraifft ‘y gadair goch’, a chaiff y Gymraeg ei defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu yn arferion dyddiol dosbarthiadau. Mae arddangosiadau Cymraeg ar waliau a chymhorthion gweledol defnyddiol i ddisgyblion i’w gweld ym mhob dosbarth hefyd.

Yn dilyn cydweithio gan yr holl staff, mae’r ysgol wedi rhoi cynllun gwaith cynhwysfawr ar waith yn ddiweddar ar gyfer Cymraeg ail iaith, ynghyd â siarter Gymraeg fanwl. Mae’r rhain yn adnoddau defnyddiol, yn enwedig i athrawon nad ydynt yn hyderus yn addysgu Cymraeg. Maent yn canolbwyntio’n glir ar ddefnyddio Cymraeg achlysurol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac yn sicrhau dilyniant a pharhad o’r dosbarth meithrin i flwyddyn 6.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y cynnydd hwn, dylai’r ysgol barhau i weithio tuag at fodloni argymhellion yr arolygiad nad aethpwyd i’r afael â nhw’n llawn eto.